

SWYDDOGOL

Ein Cyf:

Dyddiad:

Helo

Llythyr yw hwn i dy helpu i ddeall beth yw Cafcass Cymru a'r hyn yr ydym ni'n ei wneud.

Mae dy deulu'n ei chael yn anodd cytuno ar beth sydd orau i ti ac wedi gofyn i'r llys teulu am gymorth i wneud y cynlluniau iawn ar dy gyfer di.

Rydym ni'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd pan fyddan nhw yn y llys teulu. Rydym ni'n dy helpu i ddeall beth sy'n digwydd a byddwn yn gwrandao ar dy farn a dy deimladau am y sefyllfa. Byddwn yn siarad â dy deulu ac yn dweud wrth y llys beth sydd orau i ti a dy deulu yn ein barn ni.

Mae rhagor o wybodaeth am Cafcass Cymru a'r hyn yr ydym ni'n ei wneud yn y fan yma:

Pecyn Gwybodaeth i Blant

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/rhienin-gwahanu-pecyn-gwybodaeth-i-blant.pdf>

Pecyn Gwybodaeth i Bobl Ifanc

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/rhienin-gwahanu-pecyn-gwybodaeth-i-bobl-ifanc.pdf>

Ar hyn o bryd, mae'n anodd i ni gwrdd â phlant a phobl ifanc yn ein swyddfeydd neu yn unman arall, felly rydym ni'n defnyddio ffyrdd gwahanol o gadw mewn cysylltiad.

Weithiau, byddwn yn defnyddio'r ffôn i gael sgwrs gyda ti ac weithiau byddwn yn defnyddio ein sgriniau, trwy ddefnyddio apiau fel FaceTime neu Skype. Byddai'n wych pe byddet ti'n gallu



ystyried sut yr wyt ti'n dymuno siarad â ni, ac yn rhoi gwybod i dy riant neu ofalwr. Cei di ddewis y ffordd o gyfathrebu sy'n teimlo fwyaf cyfforddus i ti.

Fel arfer, bydd dy weithiwr Cafcass Cymru yn rhoi galwad i ti ac yn cael sgwrs dros y ffôn i gyflwyno ei hun. Byddwn yn gofyn i dy riant neu ofalwr wneud yn siŵr bod gen ti rywle preifat i siarad. Pan fyddwn yn siarad, cei di ofyn unrhyw gwestiynau sydd gen ti a byddwn yn gwneud ein gorau i'w hateb nhw.

Gan edrych ymlaen at siarad â ti yn fuan!

Cafcass Cymru

